

# Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

## **Cofnodion o gyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd nos Lun 20/5/2019** **Minutes of the Full Council meeting held on Monday evening 20/5/2019**

**Presennol / Present:** Derek Owen (Cadeirydd/Chair), Carys Davies, Elfed Jones, Vic Ensor, Brian Potter, Dei Owens

**Yn Bresennol / In Attendance:** Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk), Eira Parry (Cyfieithu/Translation)

**Ymddiheuriadau / Apologies:** Roger Dobson, Jack Longman, Peter Cross, Enid Jones, Cyng/Cllr Aled Jones, Cyng/Cllr Richard Jones

### **1 Croeso / Welcome**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Derek Owen ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol a dymuno penblwydd hapus i Elfed Jones oedd yn dathlu ei benblwydd yn 80.

*The meeting was chaired by Derek Owen, he welcomed all to the meeting and wished Elfed Jones a happy 80<sup>th</sup> birthday.*

### **2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest**

Dim/None

### **3 Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd / Election of Chair and Vice Chair**

Cynnigwyd bod Derek Owen a Carys Davies yn parhau yn gadeirydd ac is-gadeirydd. Cefnogwyd yn unfrydol.

*It was proposed that Derek Owen and Carys Davies remain as chair and vice chair. Unanimously supported*

### **4 Ethol Pwyllgorau / Election of Committees**

Ar argymhelliant y pwyllgor cyllid, cytuno ymuno pwyllgorau oedd yn rhannu dyletswyddau tebyg (Pwyllgor Cyllid a Personel – i gynnwys y pwyllgor cyllid, pwyllgor cwynion a pwyllgor 10/12 Stryd Fawr; Pwyllgor Parciau a Mannau Agored – i gynnwys pwyllgor y pentref, pwyllgorau caeau chwarae a chyfrifoldeb am y fynwent). Etholwyd yr aelodau canlynol i'r pwyllgorau:

*On the recommendation of the finance committee, agreed to join committees sharing similar duties (Finance and Personnel Committee - to include the finance committee, complaints committee and the 10/12 High Street committee; Parks and Open Spaces Committee - to include the village committee, field committees) play and responsibility for the cemetery). The following members were elected to the committees:*

**Pwyllgor Cyllid a Personel / Finance and Personnel Committee** – Derek Owen, Carys Davies, Elfed Jones, Roger Dobson, Brian Potter, Enid Jones, Vic Ensor

**Pwyllgor Parciau a Mannau Agored / Parks and Open Spaces Committee** – Derek Owen, Carys Davies, Elfed Jones, Jack Longman, Peter Cross, Enid Jones, Dei Owens

**Pwyllgor yr Harbwr / Harbour Committee** – Roger Dobson, Brian Potter, Jack Longman, Dei Owens

### **5 Ethol cynrychiolwyr i bwyllgorau allannol / Elect representatives for external committees**

Enwebwyd yr aelodau canlynol i gynrychioli'r cyngor:

*The following members were nominated to represent the council:*

**Clwb Pel Droed / Football Club** – Dei Owens  
**Clwb Ffitrwydd / Fitness Club** – Dei Owens  
**SSG Wylfa (Magnox)** – Derek Owen, Roger Dobson  
**Llywodraethwyr Ysgol / School Governors** – Carys Davies  
**Un Llais Cymru / One Voice Wales** – Derek Owen, Brian Potter  
**Cronfa Padrig** – Derek Owen, Elfed Jones

**6 Cofnodion Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynigwyd gan Carys Davies eiliwyd gan Elfed Jones.  
*The minutes were confirmed correct. Proposed by Carys Davies seconded Elfed Jones.*

**7 Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**

**7.1 Sedd Wag / Vacant Seat**

Mae disgwyl diweddariad gan y swyddfa etholaeth a chadarnhad a fydd etholiad neu cyfle i'r aelodau gyfethol aelod newydd.

*An update is expected from the elections office and confirmation of whether there will be an election or an opportunity for members to co-opt a new member.*

**7.2 Materion Priffyrdd / Highways Matters**

Dim diweddariad gan CSYM. Roedd Cyng Llinos Medi am afael a'r mater. Nid oes diweddariad ganddi hithau chwaith.

*No update from IACC. Cllr Llinos Medi was to address the matter, she has not provided an update either.*

**7.3 Ffordd y Felin**

Cafwyd gadarnhad gan Grwp Cynefin mai tai rhent yn unig fydd yn datblygiad Cae Rhun. Gofynwyd i'r clerc gadarnhau gyda hwy beth oedd y dau dy ar werth ym mhen pella'r datblygiad.

*Grŵp Cynefin confirmed that the Cae Rhun development will be rented only. The clerk was asked to confirm with them what the two houses were for sale at the far end of the development.*

**7.4**

**Douglas, Tregle**

Mae CSYM yn ymwybodol o bryderon y cyngor cymuned a'r trigolion lleol.  
*IACC are aware of the community council and local residents' concerns.*

**7.5**

**Darpariaeth Addysg / Education Provision**

Cafwyd wybod bod y gwaith i foderneiddio ysgolion dalgylch gogledd Mon wedi ei ohurio am rwan gan nad oedd CSYM wedi dilyn y canllawiau wrth drin a thrafod ysgolion ardaloedd eraill ac felly yn gorfod ymweld eto a'r ardaloedd hynnu cyn ymdrin ag ardal newydd.

*It was reported that the work to modernise schools in the north Anglesey catchment area had been postponed for now as the IACC had not followed the guidelines when dealing with schools in other areas and therefore had to re-visit these areas before moving to a new catchment area.*

**8 Adroddiad Pwyllgor Cyllid / Finance Committee Report**

Cafwyd grynodedb o'r cyfarfod gan Carys Davies a Derek Owen.  
*Carys Davies and Derek Owen gave an overview of the meeting.*

**9 Rheolaeth yr Harbwr / Harbour Management**

Cadarnhawyd bod adroddiad y pwyllgor wedi ei ddsbarthu i bawb cyn y cyfarfod. Mae disgwyl i Stad y Goron ddod yn ol at y cyngor gyda gwybodaeth pellach am Pier Bach.

*It was confirmed that the committee's report had been circulated to all prior to the meeting. The Crown Estate is expected to return to the council with further information on Pier Bach.*

## **10 Pwyllgor y Pentref a Caeau Chwarae / Village and Play Areas Committee**

Cafwyd ddiweddariad gan Elfed Jones. Mae'r meinciau yn y pentref a ger Marine Terrace wedi eu trin a'u gosod. Nododd byddai cyfle i dirlunio a gosod mwy o feinciau ar dir CSYM ger Marine Terrace. Ni fu gwrthwynebiad iddo gael cynlluniau at ei gilydd a gofyn i CSYM am ganiatad ar gyfer y cynllun.

Cytuno byddai posib trafod materion Treglele a datblygu cynllun ar gyfer yr ardal yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.

Nodwyd bod angen rhoi sylw i'r llwybr ym mynwent y Rhyd. Mae'r mater eisioes wedi ei drafod yng nghyfarfod y pwyllgor cyllid.

*Elfed Jones gave an update. The benches in the village and near Marine Terrace have been treated and installed. He noted that there would be an opportunity to landscape and install more benches on IACC land near Marine Terrace. There was no objection to having plans put together and asking the IACC for permission for the project.*

*Agree that it would be possible to discuss Treglele's issues and develop a plan for the area at the next meeting of the committee.*

*It was noted that the path in Rhyd cemetery needed attention. The matter has already been discussed at the finance committee meeting.*

## **11 Cynllunio / Planning**

### **11.1 Ceisiadau / Applications**

#### **11.1.1 FPL/2019/116 – St David's Athol St**

Daw cwynion gan drigolion lleol am y cynlluniau. Cytuno ymateb i CSYM yn cydnabod y cwynion hynnu ynglyn a mynediad, y byddai'n well petai'r datblygiad yn un anedd dim yn ddau, ac ei fod yn bwysig aros o fewn cymeriad yr ardal gadwraeth.

*Complaints were received from local residents about the plans. Agreed to respond to IACC acknowledging the complaints regarding access, that it would be preferable for the development to be one dwelling not two, and that it is important to remain within the character of the conservation area.*

#### **11.1.2 HHP/2019/119 – 10 Maes Padrig** Dim gwrthwynebiad/no objection

### **11.2 Penderfyniadau / Decisions** *Dim/None*

## **12 Materion Wylfa Newydd Matters** *Dim/None*

## **13 Gohebiaeth / Correspondence**

### **13.1 Clwb Pel Droed Cemaes Bay Football Club**

Ebost gan y clwb yn cadarnhau eu swyddogion am y flwyddyn nesaf.  
*An email from the club noting their officers for the next year.*

### **13.2 Pwyllgor Safonau / Standards Committee**

Cadarnhawyd bod adroddiad diweddaraf y pwyllgor ar ddiddordebau aelodau wedi ei ddsbarthu i bawb drwy ebost, ac fe gadarnhaodd yr aelodau oedd yn bresennol eu bod wedi ei dderbyn.

Mae'r pwyllgor hefyd wedi gofyn am gadarnhad o cynllun hyfforddiant yr aelodau a'r cler. Nodwyd nad oedd cynllun ffurfiol ond bod cyfle i bawb fynychu sesiynnau Un Llais Cymru neu unrhyw hyfforddiant perthnasol arall, a bod arian wedi ei glustodi yn y gyllideb i hwyluso hyn.

*It was confirmed that the committee's latest report on members' interests had been circulated to all via e-mail, and the members present confirmed that they had received it.*

*The committee has also requested confirmation of the members' and clerk's training plan. It was noted that there was no formal proposal but that there was an opportunity for everyone to attend the One Voice Wales sessions or any other relevant training, and that money had been earmarked in the budget to facilitate this.*

## **14 Unrhyw Fater Arall / Any Other Business**

### **14.1 Arwydd / Sign**

Fe ofynnwyd a fyddai posib i CSYM osod arwydd dim parcio dros nos yn y gilfan ger Buarth y Foel. Mae nifer o gerbydau yn aros yno am sawl noson ar y tro ac yn ei gwneud yn anodd i bobl eraill barcio yno megis grwpiau cerdded yn ymweld a'r ardal.

*It was asked if it would be possible for IACC to erect a no parking sign overnight at the layby near Buarth y Foel. Many vehicles stay there for several nights at a time and make it difficult for other people to park there such as walking groups visiting the area.*

### **14.2 Cynllun Adfywio Economaidd G. Mon / N. Anglesey Economic Regeneration Plan**

Cytuno byddai'r cyngor yn cefnogi ymateb Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon. Mae posib hefyd i'r aelodau ymateb fel unigolion.

*Agree that the council would support the response of the North Anglesey Councils Partnership. It is also possible for members to respond as individuals.*

### **14.3 Parcio Stad Gwelfor Parking**

Daw cwynion bod ymwelwyr yn parcio yn y stad yn hytrach na thalu i ddefnyddo'r maes parcio. Cytuno byddai Elfed Jones yn dod a'r mater at sylw Alun Roberts, swyddog parcio CSYM.

*There are complaints that visitors park in the estate rather than pay to use the car park. Agreed that Elfed Jones would bring the matter to the attention of Alun Roberts, IACC parking officer.*

### **14.4 Adeilad Llyfrgell / Library Building**

Mae gan y cyngor fynediad i'r adeilad nes mis Awst, fodd bynag deallwyd bod y llyfrgell ei hun yn cau diwedd Mehefin. Bydd y cyngor yn symud i'r ganolfan dreftadaeth o fis Gorffennaf ymlaen. Bydd cyfarfodydd y cyngor yn symud i'r trydydd nos Fawrth tray n y ganolfan. Ni fu gwrthwynebiad.

*The council has access to the building until August, however it was understood that the library itself was closing at the end of June. The council will move to the heritage centre from July onwards. Council meetings will move to the third Tuesday evening at the centre. There were no objections.*

### **14.5 Tocynnau parcio / Parking tickets**

Rhoddyd awdurdod i Elfed Jones drefnu ac archebu tocynnau parcio newydd i'r maes parcio.

*Elfed Jones was given authority to arrange and order new parking tickets for the car park.*

**14.6 Taliadau i Aelodau / Payments for Members**

Mae taliad o £150 ar gael i aelodau yn flynyddol os nad ydynt yn cwblhau ffurflen tynnu allan. Mae'r taliad yma yn dod o gyllideb y cyngor cymuned (ac felly o'r dreth a godwyd ar y gymuned). Dosbarthwyd ffurflenni tynnu allan i'r rheini oedd yn bresennol i'w cwblhau os nad oeddent am dderbyn y taliad.

*A payment of £ 150 is available to members annually if they do not complete an opt out form. This payment comes from the community council budget (and therefore from the tax raised on the community). Opt out forms were distributed to those present to complete if they did not wish to receive the payment.*

**15 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting**

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun Mehefin 17 2019 am 7 o'r gloch.

*The next meeting will be held on Monday evening June 17, 2019 at 7pm.*

Bu'r cyfarfod orffen am 20.30 / *The meeting closed at 20.30*

CET05/2019

**Arwyddwyd / Signed**  
**Derek Owen**  
**Cadeirydd/Chair**